



COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER

**Cyfarfod: Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu**  
**Lleoliad: Pencadlys yr Heddlu**  
**Dyddiad: 23 Ionawr 2017**  
**Amser: 10:00 – 13:00**



<b><u>Aelodau:</u></b>	Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh) Prif Gwnstabl Mark Collins (PG) Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG/DD) Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
<b><u>Hefyd yn Bresennol:</u></b>	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Pam Kelly (PGC/DD) Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) PC Jo Thompson, Swyddog Staff Cynorthwyol (JT) Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu a Dirprwy Swyddog Monitro, SCHTh (SR) Miss Mair Harries, Cymorth Gweinyddol (MH)
<b><u>Ymddiheuriadau:</u></b>	Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)

PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 23/01/2017		
Rhif Penderfyniad	Crynodeb o'r Penderfyniad	I'w symud yn ei flaen gan

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18/10/2017		
Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	Cynnydd
PAB 014	Yr heddlu i ddarparu diweddariad ysgrifenedig ynglŷn â datblygu'r Hwb Diogelu'r Cyhoedd	Parhaus
PAB 015	Yr heddlu i rannu adroddiad 'Moments of Truth' ynghyd â gwybodaeth gryno ar beilot SCCH mewn ysbytai	Cwblhawyd
PAB 016	Cynnwys dadansoddiad NPAS fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu	Cwblhawyd
PAB 017	Yr heddlu i roi gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig i gofnodi troseddau, gan gynnwys amserlenni, adolygiad o'r cynllun peilot yn Sir Benfro ac adborth o'r arolwg	Cwblhawyd
PAB 018	Yr heddlu i gynnig esboniad am y cynnydd mewn byrgleriaethau o eiddo nad yw'n eiddo preswyl yn ystod mis Awst	Cwblhawyd
PAB 019	Yr heddlu i ddarparu enghreifftiau o achosion ac ymchwiliadau sy'n digwydd ar hyn o bryd i'r CHTh	Cwblhawyd
PAB 020	SCHTh i dderbyn trosolwg o Qlikview ac adolygu lefel mynediad SCHTh	Cwblhawyd

PAB 021	Yr heddlu i ddarparu adroddiad ar y gwaith sy'n cael ei wneud gyda theuluoedd sydd mewn perygl uwch o ddioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol	Cwblhawyd
PAB 022	Y CHTh a'r PG i drafod materion trin galwadau Cymraeg gyda Chomisiynydd y Gymraeg	Cwblhawyd
PAB 023	Yr heddlu i ddarparu cymhariaeth o berfformiad bodlonrwydd defnyddwyr HDP yn erbyn heddluoedd eraill	Cwblhawyd
PAB 024	Yr heddlu i ddarparu trosolwg o ffactorau ariannol allanol sy'n codi a gostwng megis y cyflog byw a phrisiau olew ar y gyllideb	Parhaus
PAB 025	Darparu diweddariad ar yr adolygiad galw a'r cynllun gweithlu i SCHTh erbyn 30 Tachwedd	Parhaus
PAB 026	Cynrychiolydd o SCHTh i fynychu cyfarfod AHEM misol yr Heddlu a chael mynediad i draciwr camau gweithredu AHEM	Parhaus
PAB 027	Rhoi adroddiad gweithredol ar faterion allweddol a nodwyd gan AHEM i'r CHTh	Cwblhawyd
PAB 028	Rhoi adroddiad cynnydd ac amserlenni mewn perthynas â ConnectIn i'r CHTh	Cwblhawyd
PAB 029	SCHTh i ymgysylltu â'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth er mwyn nodi'r data perthnasol gan asiantaethau partner i'w gynnwys mewn proffiliau lleol troseddau difrifol a threfnedig	Parhaus
PAB 030	PSA i roi gwybodaeth i'r CHTh am Ddatganiadau Rheoli'r Heddlu newydd AHEM	Cwblhawyd
PAB 031	Yr heddlu i roi cymhariaeth o lefelau staffio i'r CHTh cyn Y Cyhoedd yn Gyntaf hyd y statws cyfredol a rhannu'r cynllun gweithlu	Cwblhawyd
PAB 032	SCHTh i ddarparu eglurhad pellach ar ofynion adroddiadau AD strategol, gan gynnwys data tueddiadau, amserlenni a'r cynllun gweithlu	Parhaus
PAB 033	CA i egluro sut y bydd hyfforddiant datblygu arweinyddiaeth yn cynyddu gallu gweithredol yr Heddlu, a dangos tystiolaeth ar gyfer hyn	Cwblhawyd
PAB 034	CA i gadarnhau'r sail dystiolaeth ar gyfer yr ymagwedd teuluoedd swydd yn cael ei nodi fel arfer da	Cwblhawyd
PAB 035	Rhoi diweddariad ar y system PDR yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu	Cwblhawyd
PAB 036	Gwerthuso effaith gweithredu camerâu fideo a wisgir ar y corff i'w gynnwys yn y prosiect	Cwblhawyd

## 1 Croeso ac ymddiheuriadau

Agorodd y CHTh y cyfarfod ac awgrymodd bod cyfle i ddatblygu'r BAH ymhellach o ran ei ddangos ar-lein yn fyw neu ei ddarlledu ar wefan SCHTh.

## **2 Cofnodion Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a gynhaliwyd ar 18 Hydref a Materion yn Codi**

Dywedodd y CHTH ei fod yn ddiolchgar am y cofnodion manwl ac aeth ymlaen i adolygu'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.

Holodd y CHTH am blentyn coll o Hendy a chafodd wybod bod y plentyn wedi dod i'r glawr.

PAB 003 - Cyfiawnder Adferol: Nid oedd y CHTH yn fodlon bod darlun clir o gwmpas Cyfiawnder Adferol. Soniodd y PG y byddai'n cyfarfod â chynrychiolwyr o Heddlu Dorset a bydd yn diweddarau'r CHTH ymhen rhai wythnosau.

PAB 014 - Diweddariadau am yr Hwb Diogelu'r Cyhoedd: Diolchodd y CHTH Steve Cockwell am y diweddariadau. Mynegodd y CHTH ei fwriad i ymweld â staff yn yr Hwb ac roedd e'n gobeithio am ymgynghoriad rhwng yr Heddlu a SCHTH mewn perthynas ag adnoddau yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Pam Kelly i archwilio i adeiladu ar ymchwil i mewn i effaith camerâu fideo a wisgir ar y corff gan Brifysgol Plymouth/Portsmouth.**

## **3 Sicrwydd**

Dywedodd y CHTH ei fod wedi derbyn y diweddariadau. Gofynnodd y CHTH am ddiwygiad ar dop tudalen 2 a oedd yn cyfeirio at ACPO, sydd ddim yn bodoli bellach.

Holodd y CHTH am ddatblygiad y gwaith Prosiect Cynaliadwyedd Gwyrdd fel rhan o gynllun ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y CA ei bod hi'n rhy gynnar ar gyfer amserlenni, fodd bynnag, mae'n gweithio gyda SCHTH a Llywodraeth Cymru i ddarparu ffigurau mewn perthynas ag ystadau. Dywedodd y CHTH y dylai HDP geisio dod yn fwy amgylcheddol gyfeillgar.

### **3a - AD**

Cynllunio'r gweithlu: Hysbyswyd y bwrdd y byddai drafft llawn ar gael erbyn diwedd Ionawr. Dywedodd y CHTH ei fod angen i hynny fod yn eitem agenda yng nghyfarfod nesaf y BAH.

**Cam gweithredu: Gosod Cynllunio'r Gweithlu'n eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf BAH.**

Dywedodd y CA bod datblygu'r PDR wedi'i gwblhau. Hysbyswyd y Bwrdd bod y system yn cael ei brofi gan drawstoriad o swyddogion a staff cyn ei lansio i bob swyddog ac aelod staff ym mis Ebrill. Awgrymodd y PG ei gysylltu â cheisiadau swydd, amcanion amrywiol a llwybrau gyrfa. Hefyd, awgrymodd y PG y dylai'r CA edrych ar gyrsiau rhingylliaid ac

arolygwyr i weld pa fewnbwn sydd ganddynt ar gyrsiau Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad.

### **Cam gweithredu: CA i edrych ar gyrsiau rhingylliaid ac arolygwyr i weld pa fewnbwn sydd ganddynt ar gyrsiau Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad.**

Symudodd y drafodaeth ymlaen at agweddau recriwtio a bod cryfder swyddogion wedi syrthio ychydig o'i gymharu â mis Medi 2014. Cafwyd trafodaeth fer o gwmpas cynllunio mewn perthynas â fforddiadwyedd sgiliau, goramser ayyb.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at gryfder SCCH. Trafododd y Bwrdd lwyddiannau cynnar ar gyfer Gweithredu Cadarnhaol gyda swyddogion duon a lleiafrifoedd ethnig, siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Pwyleg yn cael eu recriwtio. Cafodd y PG drafodaeth fer gyda'r CA mewn perthynas â Police Now a recriwtio swyddogion newydd ar lefel graddedigion.

Dygodd y CHTh y cyswllt rhwng buddion a chyfathrebu hynny ar draws yr heddlu o ran gwaith Gwella Parhaus i sylw'r PG.

#### **4 Adroddiad perfformiad yr heddlu - Chwarter 3**

Dyweddodd y PGC/DD Pam Kelly bod llawer o waith yn digwydd. Hysbyswyd y Bwrdd bod nifer o brosesau Gwella Parhaus yn digwydd sy'n cipio sylweddoliad manteision cost i wneud penderfyniadau gweithdrefnol pellach o gwmpas ICAT a fydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2017.

Hysbyswyd y Bwrdd y byddai Cynllun Gweithredu ar Blismona Bro ar gael erbyn diwedd Chwefror a fyddai'n blaenoriaethu gwaith o ran TPB.

Mae Bodlonrwydd Dioddefwyr wedi bod yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r Hwb Dioddefwyr. Bydd dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu halinio i'r datblygiad hwn.

Hysbysodd y PGC/DD Pam Kelly'r Bwrdd bod yr Heddlu'n ehangu cylch gorchwyl ei gynllun IOM i gynnwys troseddwr sy'n gysylltiedig â bregusrwydd. Bydd y gwaith hwn yn mynd yn fyw erbyn diwedd Ionawr.

Diweddarwyd y Bwrdd ar waith TCC. Mae cyfarfod amlasiantaeth wedi'i drefnu ymhen pythefnos gyda chydweithwyr TCC.

Dyweddodd y CHTh ei fod yn teimlo bod yr holl sydd wedi'i drafod wedi'i gyfeirio ato. Roedd y CHTh yn teimlo bod cyfle i SCHTh ddylanwadu ar rywfaint o'r gweithgarwch cyfredol, o bosibl drwy arsylwi neu eistedd mewn cyfarfod. Dywedodd y CHTh ei bod hi'n braf gweld mai Dyfed-Powys yw'r ardal sydd â lefel isaf o ran troseddau o hyd.

Cyflwynodd y CHTh gwestiynau ar pam y mae troseddau cofnodedig wedi cynyddu mewn misoedd penodol yn 2016 o gymharu â 2015, yn arbennig mis Hydref. Hefyd, gofynnodd y CHTh pa strwythurau sydd mewn grym o gwmpas y ganolfan alwadau i ddiogelu cynnydd o ran troseddau o ganlyniad i'r ffaith nad yw ffigurau bodlonrwydd dioddefwyr

wedi gwella. Dywedodd y CHTH bod angen blaenoriaethu hyn. Dywedodd SR y gallai fod yn fuddiol gweld nifer y digwyddiadau mewn perthynas â hyn.

### **Cam gweithredu: SR i ymgysylltu â'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Chuddwybodaeth mewn perthynas â niferoedd trosedd ochr yn ochr â nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt.**

Trodd y CHTH y sgwrs i droseddau yn erbyn y person mewn cartrefi oherwydd bu cynnydd cyffredinol ers mis Medi 2015. Dywedodd y PGC/DD Kelly bod cyfarfod thematig wedi'i gynnal mewn perthynas â hyn ac y bu 72 digwyddiad mis ar fis. Dywedodd y PGC/DD wrth y Bwrdd y gall hyn ymwneud â'r ffaith bod mwy o bobl yn adrodd am droseddau treisgar. Atgoffodd y CHTH y Bwrdd bod trais yn erbyn y person yn cyfrif am 32% o'r digwyddiadau mewn cyfnod o 3 blynedd a cheisiodd sicrwydd ynglŷn â'r mater. Dywedodd y PGC/DD wrth y CHTH bod nifer y swyddogion arbenigol cam-drin domestig wedi cynyddu i 10, a bod angen i'r heddlu sicrhau bod achosion perygl uwch yn cael eu hymchwilio gan arbenigwr. Holodd y CHTH pa un ai a fyddai camerâu fideo a wisgir ar y corff yn cynorthwyo â'r mater. Cadarnhaodd y PG y dylai hynny ddigwydd.

Symudodd y sgwrs ymlaen at ragweithgarwch o gwmpas y gostyngiad yn nifer y troseddau cyffuriau. Dywedwyd y gallai'r gostyngiad ymwneud â newidiadau o ran polisiau ac arweiniad. Tynnodd y CHTH sylw at y ffaith bod ei weithgarwch ymgysylltu wedi arwain at weithgarwch cyffuriau Dosbarth A yn cael ei ddwyn i'w sylw a gofynnodd pa un ai a fu'r heddlu'n llai rhagweithiol yn y maes hwn. Dywedodd y PG ei fod yn llai rhagweithiol a thrafododd gysylltiadau posibl â thimoedd plismona bro, gan roi capasiti rhagweithiol yn ôl i mewn i URSau ac edrych ar strategaethau plismona gwledig ar gyfer pob URS unigol. Dywedwyd wrth y Bwrdd y bu arweiniad clir mewn perthynas â Stopio a Chwilio a'i bod hi wedi gofyn am broffiliau cyffuriau o gwmpas oed a'r defnydd o gyffuriau. Trafodwyd bod angen codi'r mater â phartneriaid drwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal.

Cafwyd trafodaeth fer ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y ffigurau'n sefydlog ac mae cynllun mewn grym i'r SCCH fynd â'r mater ymlaen. Mae ffigurau digwyddiadau domestig yn dangos cynnydd dros gyfartaledd dreigl tri mis.

Trafodwyd y gyfradd treial effeithiol a gwelwyd bod hyn wedi gostwng. Nodwyd bod gwaith yn digwydd i sefydlu tueddiadau, ond ei bod hi'n rhy gynnar i ddweud. Dywedodd y CHTH y byddai'n mynd ag ef ymlaen i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

### **Cam gweithredu: Trafod cyfradd treial effeithiol yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.**

Aethpwyd ymlaen i drafod data trin galwadau lle mae'r model 'THRIVE' wedi'i gyflwyno a'i rannu â'r CHTH. Dywedodd y CHTH ei bod hi'n ymddangos fel pe bai'n cymryd amser hi i ateb galwadau Cymraeg 101 a gofynnodd beth sydd mewn grym o ran Cynllunio'r Gweithlu i sicrhau bod digon o staff ar gael yn ystod oriau brig. Holodd y CHTH pa un ai a ellir lleoli adnoddau o rywle arall yn y ganolfan alwadau yn ystod oriau brig. Dywedodd y CHTH bod 12% o alwadau heb eu hateb ym mis Gorffennaf 2016. Dywedodd y PGC/DD bod angen 20 o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg o leiaf.

### **Cam gweithredu: Yr heddlu i adolygu gofynion staffio Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, gan gynnwys lefelau a sgiliau.**

## **Cam gweithredu: Trafod trin galwadau ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref 2017.**

Cafwyd trafodaeth ynghylch amserau ymateb a chyfeiriwyd at y gwaith sy'n digwydd mewn perthynas â'r amser ymateb o 30 munud. Roedd y CHTh eisiau datblygu synnwyr o ran pa un ai a yw perfformiad yr heddlu o ran amserau ymateb yn dda, yn wael, ni'n gymharol. Gofynnodd SR pa un ai a yw'r heddlu'n derbyn llawer o gwynion o ardaloedd sy'n ymddangos fel pe bai ganddynt amser ymateb hirach. Dywedodd y PG bod achosion unigol lle mae digwyddiadau o HDP wedi'u cyfeirio i ganolfannau galwadau yng Ngogledd Cymru, ac er mwy amser ymateb targed HDP yw 20 munud, yn yr achosion hynny, cymerodd 22 a 25 munud yn ôl eu trefn. Dywedodd y PGC/DD bod llawer o alwadau'n dod o asiantaethau eraill, gan gynnwys Care Line. Cafwyd trafodaeth am beilota cynllun ymateb amlasiantaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd y PGC/DD ei bod hi wedi trefnu grŵp ffocws i ddeall y problemau y mae swyddogion yn eu hwynebu.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn o gwmpas Safonau Proffesiynol. Cymharodd y CHTh berfformiad â heddluoedd eraill, megis Dyfnaint a Chernyw a Swydd Gaerlleon lle maen nhw'n cofnodi 95% o gwynion o fewn 10 diwrnod gwaith. Yn HDP, 89% yw'r ffigur. Hysbyswyd y CHTh bod y ffigurau ar gyfer mis Medi 2016 a'u bod nhw wedi gwella'n sylweddol ers hynny.

## **Cam gweithredu: Cyflwyno data perfformiad ASP mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol.**

Nodwyd bod dau achos hanesyddol yn gwthio'r cyfartaledd i fyny'n sylweddol. Dywedodd y PGC/DD bod y tîm Safonau Proffesiynol yn gweithio ar y mater, ond bod achosion hanesyddol yn gymhleth.

Derbyniodd y CHTh ddiweddariad ar Wario'n Ddoeth. Bu tanwariant o dri chwarter miliwn o bunnoedd. Dywedwyd bod angen i'r Heddlu gynyddu nifer y swyddogion sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio gwn taser o 50 swyddog. Llongyfarchodd y CHTh Staff Caffael ar eu gwobr ar gyfer cydweithio. Nodwyd mai'r gwariant y cyllidwyd ar ei gyfer ar gyfer 2016-17 oedd gyda £7.8 miliwn o £2.3 amcangyfrifol heb ei wario.

Rhoddodd y CHTh esboniad byr o rôl y CHTh o ran newidiadau i'r Bwrdd Plismona a'r cyfle ar gyfer gwahodd aelod o'r Panel Sicrwydd i'r cyfarfod er mwyn adrodd yn ôl i'r CHTh o ran sut y mae'n dal yr heddlu i gyfrif.

## **5a - Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu**

Nodwyd yr adroddiadau perfformiad cynhwysfawr a gyflwynwyd cyn y cyfarfod.

Holodd y CHTh pa un ai a yw'r PG yn fodlon â'r ddarpariaeth gwasanaeth gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu a pha un ai a yw'n briodol yn weithredol.

## **Cam gweithredu: Yr heddlu i roi datganiad sefyllfa ar Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn y BAH nesaf.**

## **5b - Cydymffurfiaeth AHM**

Symudodd y drafodaeth ymlaen i Gydymffurfiaeth AHEM gyda'r CHTH yn holi pa un ai a oedd diweddariad ychwanegol. Dywedodd y PGC/DD bod gwaith arbennig wedi'i wneud dros y 14 mis diwethaf. Dywedodd y PG bod angen i'r Heddlu ddeall beth yw'r materion gan fod amserlen ar gyfer cyflwyno.

### **Cam gweithredu: Cyflwyno sylwadau'r CHTH ar y diweddariad AHEM a gyflwynwyd gan yr Heddlu i'r PG.**

#### **5c - Diweddariad ynglŷn â'r Rhaglen Ystadau**

Rhoddodd y CHTH ddiweddariad ar y rhaglen ystadau. Hysbysodd y CHTH y Bwrdd bod y Cyfarwyddwr Ystadau wedi sgwrsio â'r Cyngor Dinas yn Nhyddewi mewn perthynas â phrynu eiddo. Mae'r CHTH yn credu ei bod hi'n beth da i sgwrsio â'r gymuned.

#### **5d - Y Cynllun Heddlu a Throsedd**

Trafodwyd y Cynllun Heddlu a Throsedd. Bydd digwyddiad ymgynghoriad staff ddydd Gwener gyda chyfle i roi adborth. Dywedodd SR y byddai copi drafft o'r cynllun ar y wefan a byddai partneriaid yn cael eu gwahodd i roi adborth.

Daeth y cyfarfod i ben gydag SR yn dogfennu'r crynodeb Camau Gweithredu a Risgiau a'r CHTH yn diolch i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad.

#### **Crynodeb o'r Camau Gweithredu a'r Risgiau o'r Cyfarfod**

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/01/2017		
Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	I'w symud yn ei flaen gan
<b>PAB 037</b>	<b>Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Pam Kelly i archwilio i adeiladu ar ymchwil i mewn i effaith camerâu fideo a wisgir ar y corff gan Brifysgol Plymouth/Portsmouth.</b>	<b>PGCDD</b>
<b>PAB 038</b>	<b>Gosod Cynllunio'r Gweithlu'n eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf BAH.</b>	<b>MH</b>
<b>PAB 039</b>	<b>CA i edrych ar gyrsiau rhingylliaid ac arolygwyr i weld pa fewnbwn sydd ganddynt ar gyrsiau PDR.</b>	<b>CA</b>
<b>PAB 040</b>	<b>SR i ymgysylltu â'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth mewn perthynas â niferoedd trosedd ochr yn ochr â nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt.</b>	<b>SR</b>
<b>PAB 041</b>	<b>Trafod cyfradd treial effeithiol yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.</b>	<b>CHTh</b>
<b>PAB 042</b>	<b>Trafod trin galwadau ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref 2017.</b>	<b>PG</b>
<b>PAB 043</b>	<b>Cyflwyno data perfformiad ASP mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol.</b>	<b>PG</b>
<b>PAB 044</b>	<b>Yr heddlu i roi datganiad sefyllfa ar Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn y BAH nesaf.</b>	<b>PG</b>

<b>PAB 045</b>	<b>Cyflwyno sylwadau'r CHTh ar y diweddariad AHM a gyflwynwyd gan yr Heddlu i'r PG.</b>	<b>CHTh</b>
----------------	---	-------------

Roedd y ddau risg yn ymwneud â cham-drin domestig o ran capasiti ymchwiliol a rhagweithgarwch o gwmpas camddefnyddio cyffuriau.

### **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

18 Gorffennaf 2017